

Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr 2022

Adroddiad Ansawdd Cefndir

Paratowyd ar gyfer: VisitEngland, VisitScotland, Croeso Cymru

Paratowyd gan: BMG

Ystadegydd: David Stephens ~ +44 300 061 6110 ~ ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050

Twitter: [@ystadegaucymru](https://twitter.com/ystadegaucymru)

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Cyswllt.....	4
2.1 Uned sefydliad cyswllt	4
2.2 Enw cyswllt	4
2.3 Swyddogaeth person cyswllt	5
2.4 Cyfeiriad post cyswllt.....	5
2.5 Cyfeiriad e-bost cyswllt.....	5
2.6 Rhif ffôn cyswllt	5
3. Cyflwyniad ystadegol.....	5
3.1 Disgrifiad data.....	5
3.2 System ddsbarthu.....	6
3.3 Sylw'r sector.....	10
3.4 Cysyniadau a diffiniadau ystadegol	10
3.5 Uned ystadegol.....	12
3.6 Poblogaeth ystadegol	12
3.7 Ardal gyfeirio	12
3.8 Sylw amser	13
3.9 Cyfnod sylfaen	13
4. Prosesu ystadegol	13
4.1 Data ffynhonnell	13
4.2 Amllder casglu data	17
4.3 Casglu data.....	18
4.4 Dilysu data	21
4.5 Crynoad data	23
4.6 Addasiad	34
5. Rheoli Ansawdd	34
5.1 Sicrhau Ansawdd	34
5.2 Asesu ansawdd	36
6. Perthnasedd.....	37
6.1 Anghenion defnyddwyr	37
6.2 Boddhad defnyddiwr	39
6.3 Cyflawnrwydd	39
7. Cywirdeb a dibynadwyedd	40
7.1 Cywirdeb cyffredinol.....	40
7.2 Gwall samplu	40

7.3 Gwall heb fod yn wall samplu.....	41
7.4 Adolygu data.....	43
7.5 Addasiad tymhorol	43
8. Amseroldeb a phrydlondeb	44
8.1 Amseroldeb.....	44
8.2 Prydlondeb.....	45
9. Cydlyniad a chymaroldeb	45
9.1 Cymaroldeb daearyddol	45
9.2 Cymaroldeb dros amser.....	46
9.3 Cydlyniad — traws-barth.....	48
9.4 Cydlyniad — mewnol.....	48
10. Hygyrchedd ac eglurder.....	48
10.1 Datganiad newyddion.....	48
10.2 Cyhoeddi.....	48
10.3 Cronfeydd data ar-lein.....	48
10.4 Mynediad micro-ddata	49
10.5 Arall.....	49
10.6 Dogfennaeth ar fethodoleg	49
10.7 Dogfennaeth ansawdd.....	49
11. Cost a baich.....	49
11.1 Cost	49
11.2 Baich	49
12. Cyfrinachedd.....	50
12.1 Cyfrinachedd — polisi.....	50
12.2 Cyfrinachedd - trin data.....	51
13. Meintiau Sylfaen y Sampl	51
13.1 Nifer yr ymweliadau 2021 mae amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.....	51
13.2 Disgrifiad o'r atodiadau	53
14. Atodiad: holiadur	54
15. Atodiad: Datganiad am Delerau	119

1. Cyflwyniad

Lansiwyd Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (GBDVS) yn 2011. Mae'r GBDVS wedi'i gynllunio i fesur maint a gwerth ymweliadau undydd twristiaeth domestig (sy'n cwmpasu ymweliadau undydd hamdden a busnes) sy'n cael eu cymryd gan drigolion Prydain, yn ogystal â chasglu gwybodaeth am nodweddion ymweliadau a'r rhai sy'n cymryd ymweliadau. Ymweliadau undydd twristiaeth domestig yw'r rhai sy'n cael eu cymryd gan drigolion Prydain yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Pwrpas allweddol y GBDVS yw datgelu mewnwelediadau i dueddiadau'r farchnad dros amser.

Oherwydd pandemig COVID-19, nid oedd yn bosibl casglu data ar gyfer 3 mis cyntaf 2021. Y rheswm am hyn yw bod Prydain Fawr i gyd o dan ryw fath o 'gyfnod clo' lle nad oedd ymweliadau hamdden undydd yn cael eu caniatáu. Ail-ddechreuodd gwaith maes yng Nghymru a Lloegr ar 5ed Ebrill 2021. Ail-ddechreuodd yn yr Alban ar 12 Ebrill 2021 oherwydd i gyfyngiadau gael eu codi ychydig yn ddiweddarach yn yr Alban. Gan fod ymatebwyr yn cael eu holi am eu hymddygiad ymweliad undydd yn ystod yr wythnos lawn cyn y cyfweliad, mae hyn yn golygu y casglwyd data am Ebrill 2021 i gyd ar gyfer Cymru a Lloegr, ond dim ond data rhannol sydd ar gael ar gyfer yr Alban ar gyfer Ebrill 2021, gan na chaniatawyd ymweliadau ar gyfer mis Ebrill gyfan. Casglwyd data fel arfer ar gyfer gweddill 2021, sy'n golygu bod set ddata lawn 2021 yn rhedeg o fis Ebrill i fis Rhagfyr. Casglwyd 2022 ar gyfer y flwyddyn lawn, ond ni ellir gwneud cymariaethau â mis Ionawr i fis Mawrth 2021.

Mae'r adroddiad ansawdd cefndir yn canolbwyntio ar fersiwn gyfredol Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr, er bod rhai cyfeiriadau at y fersiynau blaenorol pan fo hynny'n berthnasol. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddarau'n flynyddol, ochr yn ochr â chyhoeddi'r canlyniadau blynyddol. Mae adroddiad ansawdd cefndir ar wahân yn cael ei gynhyrchu ar gyfer Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS).

2. Cyswllt

2.1 Uned sefydliad cyswllt

VisitEngland, VisitScotland, a Croeso Cymru

2.2 Enw cyswllt

VisitEngland: Richard Nicholls

VisitScotland: Jacqui Souter

Croeso Cymru: David Stephens

2.3 Swyddogaeth person cyswllt

VisitEngland: Pennaeth Ymchwil a Darogan

VisitScotland: Uwch Reolwr Mewnwelediadau Marchnata

Croeso Cymru: Uwch Reolwr Ymchwil a Mewnwelediadau

2.4 Cyfeiriad post cyswllt

VisitEngland: VisitEngland, 3 Gerddi Grosvenor, Llundain, SW1W 0BD

VisitScotland: VisitScotland, Adran Mewnwelediad, Ocean Point One, 94 Ocean Drive, Caeredin, EH6 6JH

Croeso Cymru: Croeso Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

2.5 Cyfeiriad e-bost cyswllt

VisitEngland: Richard.Nicholls@visitengland.org

VisitScotland: research@visitscotland.com

Croeso Cymru: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

2.6 Rhif ffôn cyswllt

VisitEngland: +44 207 578 1416

VisitScotland: +44 131 472 2222

Croeso Cymru: +44 300 061 6110

3. Cyflwyniad ystadegol

3.1 Disgrifiad data

Mae Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr yn darparu amcangyfrifon misol o gyfaint a gwerth ariannol ymweliadau twristiaeth dydd domestig ym Mhrydain Fawr. Mae'r arolwg yn mesur ymweliadau busnes a hamdden undydd, ac yn casglu gwybodaeth am nodweddion ymweliadau, megis hyd, dull teithio, y gweithgareddau a wneir ar yr ymweliad, yn ogystal â gwybodaeth am gyfansoddiad y parti. Mae'r canlyniadau'n cael eu cynhyrchu'n fisol ac maen nhw hefyd yn cael eu cyfuno i roi amcangyfrifon chwarterol, blynyddol a thair blynedd. Caiff y canlyniadau eu rhannu yn ôl daearyddiaeth, rheswm dros yr ymweliad, a gweithgaredd a wneir ar yr ymweliad.

Yn 2019 a blynyddoedd cynharach dynodwyd canlyniadau'r arolwg fel ystadegau swyddogol. Oherwydd y newidiadau mewn methodoleg ac effaith pandemig COVID-19 ar ymddygiad twristiaeth a chasglu data ynghylch ymddygiad twristiaeth, defnyddiwyd 2020 fel blwyddyn dreialu, gan ganiatáu i'r fethodoleg newydd gael ei phrofi ac i ddadansoddiadau ychwanegol gael eu cynnal. Ar gyfer 2021 a 2022 mae canlyniadau'r arolwg wedi cael eu bathodi fel ystadegau arbrofol. Y bwriad yw dychwelyd i statws ystadegau swyddogol yn y dyfodol. Oherwydd newidiadau methodolegol a diffiniad, ni ellir cymharu data 2021 a thu hwnt i 2019.

3.2 System ddsbarthu

Mae 4 diffiniad o ymweliadau undydd cymwys:

1. Ymweliadau Undydd Hamdden Prydain Fawr 3+ awr
2. Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr
3. Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr — Gweithgareddau sy'n Graidd i Dwristiaeth
4. Ymweliadau Busnes Undydd Prydain Fawr

3.2.1 Ymweliadau Hamdden Undydd Prydain Fawr 3+ awr

Er mwyn cael ei ddsbarthu fel Ymweliad Undydd Prydain Fawr 3+ awr, rhaid i'r ymweliad fodloni'r meini prawf canlynol:

- Yn para 3 awr neu fwy, gan gynnwys amser teithio
- Ddim yn rhan o daith dros nos
- Prif ddiben yr ymweliad yw dibenion hamdden
- Heb ddechrau o lety gwyliau

3.2.2 Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr

Mae Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr yn is-set i Ymweliadau Hamdden Undydd 3+ awr Prydain Fawr. Er mwyn cael ei ddsbarthu fel Ymweliad Hamdden Undydd 3+ awr Prydain Fawr, rhaid i'r ymweliad fodloni'r meini prawf canlynol:

- Yn para 3 awr neu fwy, gan gynnwys amser teithio
- Ddim yn rhan o daith dros nos
- Prif ddiben yr ymweliad yw dibenion hamdden
- Yn cael ei wneud yn llai aml nag unwaith yr wythnos

- Wedi digwydd y tu allan i amgylchedd arferol yr ymatebydd (mewn awdurdod lleol gwahanol i ble y dechreuodd yr ymweliad)
- *Neu*
- Prif weithgaredd yr ymweliad oedd gwyllo digwyddiadau chwaraeon byw, mynd i atyniadau ymwelwyr neu fynd i ddigwyddiadau cyhoeddus arbennig (nid oes angen iddo fod mewn awdurdod lleol gwahanol)

3.2.3 Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr — Gweithgareddau sy'n Graidd i Dwristiaeth
 Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr — Mae gweithgareddau sy'n Graidd i Dwristiaeth yn is-set i Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr. Er mwyn cael ei ddsbarthu fel Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr — Gweithgareddau sy'n Graidd i Dwristiaeth, rhaid i'r ymweliad fodloni holl feini prawf Ymweliadau Undydd Twristiaeth Prydain Fawr. Yn ogystal, rhaid bod ymweliad wedi cynnwys un o'r canlynol fel y prif weithgaredd a wnaed yn ystod yr ymweliad:

- Wedi mynd i atyniad ymwelwyr e.e. tŷ hanesyddol, parc thema, amgueddfa, ac ati.
- Wedi mynd i weld golygfeydd ac archwilio ardaloedd
- Triniaethau sba/harddwch/iechyd
- Encilio neu fyfyrto
- Mynychu digwyddiad cyhoeddus a drefnwyd (e.e. arddangosfa, cyngerdd, ffair, chwaraeon byw ac ati)
- Ymweld ag oriel gelf
- Ymweld ag amgueddfa
- Mynd i ganolfan ddiwylliannol leol
- Gwyllo chwaraeon byw (nid ar y teledu)

3.2.3 Ymweliadau Busnes Undydd Prydain Fawr

Er mwyn cael ei ddsbarthu fel Ymweliad Busnes Undydd 3+ awr Prydain Fawr, rhaid i'r ymweliad fodloni'r meini prawf canlynol:

- Yn para 3 awr neu fwy, gan gynnwys amser teithio
- Ddim yn rhan o daith dros nos
- Prif bwrpas yr ymweliad yw at ddibenion busnes
- Yn cael ei wneud yn llai aml nag unwaith yr wythnos

- Wedi digwydd y tu allan i amgylchedd arferol yr ymatebydd (mewn awdurdod lleol gwahanol i'w leoliad cychwyn)

3.2.5 Dosbarthiadau daearyddol

Ar gyfer dosbarthiad daearyddol, mae rhanbarthau safonol Prydain Fawr yn cael eu defnyddio, fel sydd wedi'u diffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae cenhedloedd yr Alban a Chymru wedi'u rhannu'n is-ranbarthau ymhellach:

Yr Alban:

- Gogledd yr Alban — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
 - Dinas Aberdeen
 - Swydd Aberdeen
 - Yr Ucheldir
 - Moray
 - Ynysoedd Erch
 - Ynysoedd Shetland
 - Ynysoedd y Gorllewin (Na h-Eileanan Siar)
- De yr Alban — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
 - Dumfries a Galloway
 - Gororau'r Alban
- Dwyrain yr Alban — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
 - Angus
 - Dinas Caeredin
 - Dinas Dundee
 - Dwyrain Lothian
 - Fife
 - Midlothian
 - Perth a Kinross
 - Gorllewin Lothian
- Gorllewin yr Alban — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:

- Argyll a Bute
- Swydd Clackmannan
- Dwyrain Ayrshire
- Dwyrain Swydd Dunbarton
- Dwyrain Swydd Renfrew
- Falkirk
- Dinas Glasgow
- Inverclyde
- Gogledd Swydd Ayr
- Gogledd Swydd Lanark
- Swydd Renfrew
- De Swydd Lanark
- De Swydd Ayr
- Stirling
- Gorllewin Swydd Dunbarton

Cymru:

- Canolbarth Cymru — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
 - Ceredigion
 - Powys
- Gogledd Cymru — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
 - Ynys Môn
 - Conwy
 - Sir Ddinbych
 - Sir y Fflint
 - Gwynedd
 - Wrecsam
- De-ddwyrain Cymru — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
 - Blaenau Gwent

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Caerffili
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Casnewydd
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- De-orllewin Cymru — sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
 - Sir Gaerfyrddin
 - Sir Benfro
 - Castell Nedd Port Talbot
 - Abertawe

3.3 Sylw'r sector

Mae'r arolwg ymhlith aelodau'r cyhoedd ac felly nid yw sylw'r sector yn berthnasol yn yr achos hwn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod ystadegau'r arolwg yn cael eu defnyddio gan fusnesau yn y sector twristiaeth, a'r rhai sy'n ddibynnol ar dwristiaeth.

3.4 Cysyniadau a diffiniadau ystadegol

Cyfaint: Amcangyfrif o'r hyn fyddai nifer gros yr ymweliadau undydd a wnaed gan y boblogaeth, o fewn y cyfnod amser a pharmedrau eraill a nodwyd, pe bai'r sampl cwota yn gynrychioliadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr.

Gwerth: Amcangyfrif o beth fyddai cyfanswm y gwariant yn ymwneud â nifer yr ymweliadau undydd a wneir gan boblogaeth Prydain Fawr, o fewn yr amserlen a pharmedrau eraill a nodwyd, pe bai'r sampl cwota yn gynrychioliadol o holl boblogaeth Prydain Fawr. Mae'r gwariant yn cynnwys cost archebion a dalwyd ymlaen llaw, eitemau eraill a brynwyd at ddibenion yr ymweliad a thaliadau am filiau cysylltiedig

â'r ymweliad a dderbyniwyd ar ôl yr ymweliad. Mae gwariant hefyd yn cynnwys unrhyw filiau a dalwyd ar ran yr ymatebydd, fel unrhyw beth y telir amdano gan gyflogwr ar gyfer taith fusnes. Dim ond tanwydd a brynwyd yn ystod yr ymweliad sydd wedi'i gynnwys. Dim ond bwyd sy'n cael ei fwyta yn ystod yr ymweliad sydd wedi'i gynnwys.

Cyfansoddiad y parti: Nifer yr oedolion a'r plant yn y parti uniongyrchol a ymgwymerodd bob ymweliad dydd.

Lle yr ymwelwyd ag ef: Enw'r pentref, y dref neu'r ddinas yr ymwelwyd â hi, neu'r pentref, y dref neu'r ddinas agosaf. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu trin fel lle a gellir eu dewis o'r rhestr o leoedd. Gofynnir i ymatebwyr ddewis y 'prif le' y gwnaethon nhw ymweld ag ef ac yna unrhyw leoedd eraill y gwnaethon nhw ymweld â nhw. Maen nhw'n cael eu cyfarwyddo i eithrio unrhyw arosiadau byr at ddibenion fel prynu tanwydd, defnyddio toiled, defnyddio peiriant arian parod neu godi rhywun.

Lle yr ymwelwyd ag ef: Dosbarthiad ymatebwyr o'r math o le maen nhw'n ymweld ag ef yn un o'r categorïau canlynol:

- Dinas/tref fawr
- Tref fach
- Pentref
- Cefn gwlad gwledig
- Cyrchfan glan môr neu dref
- Arfordir glan môr — traeth
- Arfordir eraill
- Arall

Amser sy'n cael ei dreulio yn teithio yn ystod ymweliad: Mae hyn yn cynnwys teithio yn ôl ac ymlaen i'r holl leoedd yr ymwelwyd â nhw, ond nid yw'n cynnwys unrhyw deithiau cerdded byr (llai na 10 munud) sy'n cael eu cymryd i fynd rhwng lleoliadau a lleoedd yr ymwelwyd â nhw.

3.5 Uned ystadegol

Mae data am nifer yr ymweliadau undydd sy'n cael eu cymryd gan oedolion unigol (16+ oed) yn cael ei gasglu. Gall oedolyn penodol fod wedi cymryd mwy na un ymweliad undydd yn y cyfnod amser a nodwyd. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei chasglu am bresenoldeb unrhyw blant ar yr ymweliadau undydd hyn, gan ganiatáu cynhyrchu amcangyfrifon am ymweliadau oedolion a phlant, er nad yw plant yn cael eu samplu.

Mae'r amcangyfrifon o faint a gwerth yr ymweliadau sy'n cael eu cyflwyno wedi'u crynhoi i gyfanswm poblogaeth y ddaearyddiaeth dan sylw (h.y., Prydain Fawr, Lloegr, Cymru neu'r Alban). Mae hyn yn dangos beth fyddai'r gwerthoedd a'r cyfeintiau ar gyfer cyfanswm y boblogaeth pe byddai'r sampl cwota yn gynrychioliadol o holl boblogaeth Prydain Fawr.

3.6 Poblogaeth ystadegol

Oedolion 16+ oed yn Lloegr, yr Alban ac yng Nghymru. Mae'r arolwg hefyd yn casglu manylion unrhyw blant sy'n rhan o ymweliadau undydd ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau gros amcangyfrifedig ar gyfer cyfaint a gwerth.

3.7 Ardal gyfeirio

Mae'r holl ymatebwyr yn byw ym Mhrydain Fawr (Lloegr, yr Alban neu yng Nghymru). Mae data am ymweliadau undydd sy'n cael eu cymryd i lefydd ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn cael ei gasglu.

Nid yw Prydain Fawr yn cynnwys dibyniaethau'r goron Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel ac nid oed unrhyw ddata am ymweliadau â'r ardaloedd hyn yn cael ei gasglu.

Nid yw data sy'n cael ei gasglu am ymweliadau â Gogledd Iwerddon yn unig wedi'i gynnwys yn unrhyw un o'r adroddiadau ar gyfer GBDVS, ond mae'n cael ei rannu â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fel y gellir ei gyfuno â data o arolwg cyfatebol a gynhaliwyd gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Os bydd ymweliad yn golygu treulio amser yng Ngogledd Iwerddon ac un neu fwy o leoliadau ym Mhrydain Fawr, mae'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r lleoedd yr ymwelwyd â nhw ym Mhrydain Fawr wedi'i gynnwys yn adroddiadau GBDVS. Gan fod un o'r ffyrdd o adrodd data GBDVS wedi'i rannu yn ôl nodweddion sy'n gysylltiedig â'r prif le yr ymwelwyd ag ef, mae'n bosibl y gall nifer fach o ymweliadau gyfrannu at amcangyfrifon ymweliadau a gwariant Prydain Fawr heb fod â 'prif le' ym Mhrydain Fawr.

3.8 Sylw amser

Mae'r ystadegau'n cwmpasu'r cyfnod amser rhwng mis Ionawr 2021 a diwedd mis Rhagfyr 2022. Mae cyfresi amser hŷn yn cael eu disgrifio yn adran 9.2 'Cymaroldeb dros Amser'.

3.9 Cyfnod sylfaen

Nid yw hyn yn berthnasol.

4. Prosesu ystadegol

4.1 Data ffynhonnell

Mae'r data yn seiliedig ar arolwg.

Poblogaeth yr arolwg yw oedolion 16+ oed syddyn byw yn Lloegr, yr Alban ac yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am unrhyw blant sy'n bresennol yn cael ei chasglu ac felly mae'r amcangyfrifon deilliadol yn cynnwys oedolion a phlant.

4.1.1 Dyluniad sampl

Defnyddir dull nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd, gyda haeniad yn ôl gwlad (Lloegr, yr Alban a Chymru) a chwotâu penodol ym mhob gwlad. Defnyddiwyd dull tebygolrwydd am ddau brif reswm; effeithlonrwydd casglu data o fewn y fethodoleg ar-lein, a chymaroldeb â data cyfres amser.

Yn gyffredinol, mae dulliau arolwg tebygolrwydd yn fwy costus ac yn cymryd mwy o amser i weinyddu na dulliau nad ydynt yn seiliedig ar debygolrwydd. Mae cost dulliau tebygolrwydd hefyd wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd lefelau uwch o ddiffyg ymateb. Os yw cyfraddau ymateb yn isel, mae'r potensial ar gyfer rhagfarn yn y sampl tebygolrwydd yn uwch. Mae hyn yn arbennig o wir os yw proffil pobl nad ydynt yn ymatebwyr yn systematig wahanol i ymatebwyr.

Er bod samplu tebygolrwydd yn caniatáu ar gyfer technegau ystadegol megis cyfnodau hyder a lled gwall i ddilysu'r canlyniadau, nid yw hyn yn bosibl gyda sampl nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd. O'r herwydd, ni ellir gwneud amcangyfrifon cadarn o ymddygiad y boblogaeth gyfan gyda sampl. Defnyddiwyd cwotâu a phwysoliad i wneud y sampl mor gynrychioliadol o boblogaeth oedolion Prydain Fawr â phosibl o fewn cyfyngiadau sampl nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd.

Mae GBDVS wedi defnyddio sampl panel ar-lein nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd ers ei sefydlu yn 2011 pan fu i gynllun treialu Partneriaeth Deallusrwydd Twristiaeth Lloegr (ETIP) bennu dull methodoleg ar-lein. Amcan allweddol GBDVS yw darparu cymaroldeb data dros amser, a sicrhau bod y data a gasglwyd o 2021 ymlaen yn gymharol â data hanesyddol. Byddai newid i fethodoleg tebygolrwydd ar hyn o bryd yn arwain at ganlyniadau ar gyfer cymaroldeb â blynyddoedd blaenorol.

Fe wnaeth noddwyr bwysu a mesur manteision sampl tebygolrwydd yn erbyn yr anfanteision a gwneud y penderfyniad bod methodoleg samplu nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd yn gweddu'n well i'w hanghenion a'r adnoddau sydd ar gael.

Dilynwyd canllawiau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) ar adrodd canlyniadau pan fydd samplu cwota i'r graddau mwyaf posibl, sef:

- Mae'r nodweddion sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cwotâu penodol wedi'u hystyried yn ofalus. Gwnaed gwaith ychwanegol yn 2021 i ymchwilio i weld a oes unrhyw duedd bosibl yn y sampl a gasglwyd, ac os felly, maint y duedd hon. Rhan allweddol o'r dadansoddiad hwn oedd cymharu'r sampl a gasglwyd ag ystadegau cadarn sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn penderfynu a oes unrhyw grwpiau'n cael eu tan-gynrychioli neu'n cael eu gor-gynrychioli yn yr arolygon. Dangosodd y dadansoddiad hwn fod data'r arolwg yn gymharol fras ar gyfer presenoldeb plant ar yr aelwyd, ethnigrwydd, lefel addysg, perchnogaeth car, hunaniaeth rywiol, oedran (hyd at 75) a statws cyflogaeth.
- Defnyddiwyd cwotâu cydgloëdig lle bo hynny'n ymarferol. Mae cwotâu oedran a rhyw yn gydgloëdig, sy'n cyfrif am y mwyafrif o gelloedd cwota
- Mae'r model pwysoli wedi'i gynllunio i addasu'r canlyniadau ar gyfer diffyg ymateb. O ganlyniad i'r dadansoddiad sydd wedi'i ddisgrifio uchod ynghylch tuedd bosibl yn y sampl a gasglwyd cytunwyd y byddai'r categorïau pwysoli ar gyfer oedran yn cael eu haddasu ar gyfer 2021 ymlaen, fel bod y grŵp oedran hynaf (65+ yn flaenorol) yn cael ei rannu'n 65-74 a 75+.
- Mae'r adroddiad, gan gynnwys yr adroddiad ansawdd cefndir hwn, yn nodi pam y defnyddiwyd samplu cwota
- Mae'r adroddiad, gan gynnwys yr adroddiad ansawdd cefndir hwn, yn nodi sut y dylid dehongli'r canlyniadau

Mae canllawiau GSR i'w gweld yma: [Quota-sampling-guidance-4.pdf \(civilservice.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/614442/Quota-sampling-guidance-4.pdf)

4.1.2 Poblogaeth

Daw gwybodaeth am y boblogaeth o'r ystadegau cenedlaethol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pob gwlad. Mae'r rhain yn cael eu diweddarau'n flynyddol. Daw ystadegau poblogaeth o 2 ffynhonnell wahanol:

- Cafwyd ystadegau ar gyfanswm y boblogaeth yn ôl cenedl ddatganoledig, a'r rhaniad yn ôl rhanbarth, rhyw ac oedran o'r amcangyfrifon poblogaeth canol-2018 a gynhyrchwyd gan yr ONS. Rhain oedd yr ystadegau diweddaraf a oedd ar gael ar adeg cwblhau'r fanyleb sampl. Gellir gweld yr ystadegau yma:
<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2018>
- Cafwyd ystadegau ar y radd gymdeithasol fras o'r arolwg poblogaeth blynyddol a gynhyrchwyd gan yr ONS. Y cyfnod amser a ddefnyddiwyd oedd Gorffennaf 2018 — Gorffennaf 2019. Rhain oedd yr ystadegau diweddaraf a oedd ar gael ar adeg cwblhau'r fanyleb sampl. Gellir gweld yr ystadegau yma: <https://www.nomisweb.co.uk/datasets/apsnew>.
 - Gan fod Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn safon wedi'i chysoni yn ystadegau swyddogol y DU, at ddibenion cwtotâu a phwysoli, mae'r ystadegau poblogaeth ar gyfer NS-SEC o'r Arolwg Poblogaethau Blynyddol yn cael eu mapio i'r radd gymdeithasol fras sy'n cael ei chasglu yn arolygon GBTS a GBDVS. Argymhellodd yr ONS ystyried a allai defnyddio NS-SEC fel set o gwestiynau fod yn fwy priodol. Fodd bynnag, gan fod NS-SEC yn ei gwneud yn ofynnol gofyn o leiaf 4 cwestiwn sydd i gael eu penderfynu, cytunwyd gyda'r Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol nad oes digon o le i ofyn NS-SEC yn GBTS a GBDVS.

4.1.3 Ffrâm samplu

- Mae data'n cael ei gasglu drwy arolwg ar-lein gan ddefnyddio sampl o unigolion sydd wedi cofrestru gyda phaneli arolwg ar-lein.
- Daw ymatebwyr trwy Qualtrics, platfform ar-lein sy'n cyfuno nifer o ddarparwyr panel ar-lein achrededig ESOMAR. Defnyddir cyfuniad o 4 panel i liniaru yn erbyn y risg o duedd panel penodol.
- Mae gan bob un o'r darparwyr panel duedd fach yng nghyfanswm poblogaeth eu panel. Fodd bynnag, mae'r defnydd o gwotâu yn lliniaru yn erbyn y gogwydd hwn.
- Mae'r cyfuniad o baneli yn gyson ar gyfer pob mis o waith maes i sicrhau bod y sampl yn sefydlog.

- Defnyddir cymal eithrio 3-mis i sicrhau na all unrhyw un ymatebydd unigol gwblhau'r arolwg yn rhy aml.
- Mae gan bob panel eu gweithdrefnau eu hunain, yn unol â chanllawiau ESOMAR¹ ar gyfer sicrhau bod yr wybodaeth sydd ganddynt am bob panelwr yn gyfredol ac yn gyflawn. At hynny, mae'r holl newidynnau cwota yn cael eu casglu yn yr arolwg i sicrhau bod ymatebwyr yn cael eu categoreiddio'n briodol.

4.1.4 Cwotâu

Maint y sampl blynyddol am flwyddyn lawn yw 35,000 o ymatebwyr. Mae hyn yn cynnwys yr holl ymatebwyr, p'un a ydynt wedi cymryd ymweliad dydd cymwys ai peidio. Mae'r 35,000 hwn wedi'i rannu'n anghymesur yn ôl gwlad, er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddi meintiau mwy o faint ar gyfer yr Alban a Chymru:

- Lloegr - 25,000
- Yr Alban - 5,000
- Cymru - 5,000

Mae samplu cwotâu yn rheoli cyfansoddiad y sampl terfynol a gyflawnwyd 'trwy ddyluniad'. Ym mhob categori cwota mae targedau samplu yn cael eu gosod ar gyfer pob categori cwota a phan fydd y targed hwn wedi'i gyrraedd, nid oes unrhyw gyfweliadau pellach yn cael eu casglu yn y categori hwnnw.

Mae'r cwotâu wedi'u gosod yn seiliedig ar ystadegau cenedlaethol am boblogaeth oedolion Prydain Fawr, fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod (o dan 'poblogaeth' yn adran 4.1.2). Mae ymatebwyr yng Nghymru a'r Alban yn cael eu gor-samplu i sicrhau bod y meintiau sylfaenol sy'n deillio o hyn yn caniatáu dadansoddiad cadarn.

Ym mhob gwlad mae cwotâu wedi'u gosod ar oedran x rhyw (cydglöedig), gradd gymdeithasol fras a rhanbarthau Lloegr. Mae cwotâu caled yn cael eu gosod ar gyfer pob 4 wythnos o gyfsweld, fel isod:

RHANBARTH	%	Targed GBDVS	Oedran/Rhyw	%	Targed GBDVS
Lloegr	70%	1924	Gwryw 16-24	7%	184
Yr Alban	15%	384	Gwryw 25-34	8%	228
Cymru	15%	384	Gwryw 35-44	8%	208

¹ <https://esomar.org/code-and-guidelines/icc-esomar-code>

Cyfanswm	100%	2692	Gwryw 45-54	8%	228
Dwyrain Canolbarth Lloegr	6%	168	Gwryw 55-64	7%	196
Dwyrain Lloegr	8%	212	Gwryw 65+	10%	280
Llundain	11%	300	Benyw 16-24	6%	172
Gogledd Ddwyrain	3%	92	Benyw 25-34	8%	224
Gogledd Orllewin	9%	252	Benyw 35-44	8%	212
De Ddwyrain Cymru	11%	316	Benyw 45-54	9%	232
De Orllewin	7%	196	Benyw 55-64	8%	204
Gorllewin Canolbarth Lloegr	7%	200	Benyw 65+	12%	332
Swydd Efrog a'r Humber	7%	188	Gradd gymdeithasol fras		
Cyfanswm	70%	1924	AB	12%	316
			C1	30%	800
			C2	23%	608
			DE	36%	972

Mae cwtâu yn cael eu monitro'n wythnosol i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mor gyfartal â phosibl ar draws pob cyfnod o 4 wythnos.

4.2 Amllder casglu data

Mae casglu data yn cael ei wneud drwy gydol pob un o'r pedair neu bum wythnos o fis penodol. Mae data yn cael ei adrodd ar sail mis calendr, bob chwarter a bob blwyddyn. Mae rhywfaint o ddadansoddiad hefyd yn defnyddio dosbarthiadau cyfnod treigl o 12 mis, blwyddyn hyd yma a 3-blynedd ar gyfartaledd.

Gofynnir i bob ymatebydd am unrhyw ymweliadau undydd y gallent fod wedi'u cymryd yn ystod yr wythnos lawn cyn dyddiad y cyfweliad e.e., os yw'r cyfweliad yn cael ei gynnal ddydd Mercher 6 Gorffennaf 2022, bydd yr ymatebydd yn ateb am ymweliadau undydd rhwng 27 Mehefin 2022 a 3 Gorffennaf 2022. Mae data'n cael ei adrodd mewn perthynas â'r cyfnod 'cyfeirio' hwn, yn hytrach na dyddiad y cyfweliad.

Mae pob wythnos lawn o fewn y flwyddyn yn cael ei ddyrannu i un mis adrodd. Mae'n cael ei ddyrannu i'r mis adrodd sydd â'r mwyaf o ddyddiau ynddo o'r wythnos honno. Felly, mae rhai misoedd yn cynnwys 4 wythnos, a rhai 5 wythnos. Yn yr enghraifft sy'n cael ei disgrifio uchod, bydd y data yn dod o dan y cyfnod cyfeirio 'Mehefin 2022' gan fod y rhan fwyaf o'r wythnos sy'n dechrau ar 27 Mehefin 2022 yn disgyn i mewn i fis Mehefin.

I gynorthwyo defnyddioldeb y canlyniadau gan ddefnyddwyr, yna mae ffactor cywiro yn cael ei gymhwyso, sef y Ffactor Llyfnu Tymhorol, i 'drosi' y data ar gyfer y cyfnod adrodd 4-neu-5 wythnos yn gyfnod 'mis calendr'. Mae'r ffactor cywiro hwn yn ystyried nifer y diwrnodau mewn cyfnod adrodd 4- neu 5-wythnos a nifer y diwrnodau yn y mis calendr dan sylw. Mae'r ffactor cywiro hwn yn cael ei gymhwyso'n gyfartal i bob ymweliad sy'n cael ei gymryd o fewn y cyfnod. Mae'n cael ei gymhwyso i gynyddu cymaroldeb data ar draws blynyddoedd, a thrwy hynny gael gwared ar yr elfen o p'un a yw mis yn cael ei gynrychioli gan gyfnod 4 neu 5 wythnos. Mae'n bwysig nodi bod data ar gyfer y cyfnod adrodd yn dal i gael ei gymryd dros gyfnod o 4 neu 5 wythnos. Mae rhagor o fanylion am y Ffactor Llyfnu Tymhorol yn 4.5.3.

4.3 Casglu data

Mae casglu data ar-lein, trwy Qualtrics, plattform ar-lein sy'n cyfuno nifer o ddarparwyr panel achrededig ESOMAR. Mae'r arolwg yn agnostig i ddyfeisiau, sy'n golygu y gall ymatebwyr ei gwblhau ar gyfrifiadur, gliniadur, llechen neu ddyfais symudol.


Mae casglu data ar gyfer GBDVS yn cael ei gyfuno â chasgliad ar gyfer Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS). Tra bod GBDVS yn mesur ymweliadau undydd, mae GBTS yn mesur teithiau dros nos. Yn 2019 a blynyddoedd cynharach, cynhaliwyd y ddau arolwg fel arolygon annibynnol ar wahân gan ddefnyddio gwahanol ddulliau arolygu. Er mwyn caniatáu mwy o reolaeth ac i gasglu gwybodaeth fwy perthnasol a chymaradwy cyfunwyd y ddau arolwg. Mae'r ddau arolwg wedi cael eu cyfuno i mewn i un sgrïpt, gyda dau lwybr posibl.

Mae gan y sgrïpt 5 adran (mae'r holiadur llawn i'w weld yn atodiad y ddogfen hon):

1. Demograffeg cwota
2. Teithiau cyffredinol
3. GBTS
4. GBDVS
5. Demograffeg terfynol

Gofynnir adrannau 1,2 a 5 i bob ymatebydd. Mae dyraniad i adrannau 3 a 4 yn cael eu pennu gan y sgrïpt ar sail y lleiaf llawn, ar ôl cwblhau adran 1, ond cyn casglu unrhyw ddata ar gyfer adran 2. Mae hyn yn golygu y gellir dyrannu ymatebydd i GBDVS, hyd yn oed os nad yw wedi cymryd unrhyw ymweliadau undydd cymwys yn y cyfnod dan sylw. Mewn achos o'r fath, gofynnir adrannau 1 a 2 i'r

ymatebydd, ac yna sgipio i adran 5. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r sampl yn profi tuedd oherwydd ymatebion i'r adran gyffredinol.



4.3.1 Profi gweithdrefnau a systemau casglu data

Fel rhan o sefydlu'r arolwg GBDVS a GBTS cyfun profwyd y sgrïpt yn drylwyr i sicrhau bod yr holl agweddau llwybro a dilysu data yn gweithio fel y dymunir. Cynhaliwyd arolwg treialu byw hefyd i ganiatáu i'r sgrïptiau gael eu profi'n llawn. Cynhaliwyd yr arolwg treialu rhwng 23ain Ebrill a 20fed Mai 2020. Cwblhawyd 1,830 o arolygon treialu ar gyfer GBDVS.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolwg treialu yn ystod cyfnod clo cychwynnol COVID-19 yn y DU. Gan fod y cyfnod clo yn cyfyngu ar symud ac nad oedd yn caniatáu cynnal ymweliadau hamdden, gwnaed rhai newidiadau i'r sgrïpt dreialu er mwyn caniatáu casglu data dibynadwy a defnyddiol:

- Diwygiwyd y cyflwyniad i adlewyrchu'r ffaith na fyddai ymatebwyr wedi gwneud unrhyw ymweliad dydd yn ystod yr wythnosau blaenorol a chynhwyswyd cyfeiriad at gyfnod clo COVID-19
- Diwygiwyd y dyddiadau cyfeirio fel bod pob ymatebydd yn cael ei holi am ymweliadau yn yr un cyfnod — rhwng 9 Mawrth a 22 Mawrth 2022 — sef cyfnod o bythefnos i wneud y mwyaf o nifer yr ymweliadau tebygol
- Gwnaed mân newidiadau i eiriad y cwestiwn i adlewyrchu'r cyfnodau penodol y cyfeiriwyd atynt yn yr arolwg

Dadansoddwyd data'r arolwg treialu i werthuso dyluniad yr arolwg. Cafodd yr elfennau canlynol eu cynnwys yn y dadansoddiad:

- Dadansoddiad o'r sampl a gyflawnwyd i sicrhau ei fod yn gytbwys
- Y dyraniad ar hap i naill ai GBTS neu GBDVS
- Y llwybro yn sgript yr arolwg
- Hyd yr arolwg
- Y cyfraddau gadael
- Nifer yr ymweliadau cymwys, gyda chymariaethau'n cael eu gwneud â fersiynau blaenorol yr arolwg
- Y rhanbarth preswyllo a nodwyd gan ymatebwyr, o'i gymharu â'r lle penodol a ddewiswyd ganddynt fel preswyllo ynddo
- Nifer y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw
- Gwariant ymweliad — gan ystyried maint y parti a'r mathau o weithgareddau a wnaed
- Maint y parti
- Dull teithio a ddefnyddir
- Dichonoldeb y lleoedd yr ymwelir â nhw os oes mwy nag un lle yn cael eu dewis

Ni wnaed unrhyw newidiadau i sgript yr arolwg, y weithdrefn casglu data na'r systemau o ganlyniad i'r arolwg treialu.

4.3.2 Gwiriadau sy'n cael eu cymhwysu yn ystod y cam mewnbynnu data

Gan fod yr arolwg yn defnyddio methodoleg ar-lein mae'r holl wiriadau yn y cam mewnbynnu data wedi'u cynnwys yn sgript yr arolwg. Mae'r gwiriadau canlynol yn yr holiadur:

- C003 — man preswyllo — rhaid i ymatebwyr ddewis o gwymplen sy'n cynnwys 61,442 o ddinasoedd, trefi a phentrefi yn y DU
- C005 — oedran yr ymatebydd — caiff unrhyw ymatebwyr 15 oed neu iau eu sgrinio'n awtomatig allan o'r arolwg
- DV04 — lle yr ymwelwyd ag ef — rhaid i ymatebwyr ddewis o gwymplen sy'n cynnwys 61,442 o ddinasoedd, trefi a phentrefi yn y DU
- DV07 — lleoedd eraill yr y ymwelwyd â nhw— rhaid i ymatebwyr ddewis o gwymplen sy'n cynnwys 61,442 o ddinasoedd, trefi a phentrefi yn y DU
- DV09 — lle dechreuodd yr ymweliad — rhaid i ymatebwyr ddewis o gwymplen sy'n cynnwys 61,442 o ddinasoedd, trefi a phentrefi yn y DU

- DV13 — amser sy'n cael ei dreulio yn teithio yn ystod ymweliad — gall ymatebwyr gofrestru uchafswm o 36 awr a 59 munud gan y byddai unrhyw beth hirach na hyn wedi gofyn am aros dros nos (hyd yn oed wrth eu cludo) ac felly ni fyddent yn gymwys fel ymweliad undydd
- DV15 — maint parti — caniateir uchafswm o 50 ar gyfer pob math o aelod o'r parti
- DV19b - maint parti y mae'r ymatebydd yn rhoi gwybodaeth am wariant ar ei gyfer - ni all ymatebwyr nodi nifer fwy o oedolion neu blant yma nag a gofnodwyd yn DV15. Os ydynt, bydd neges gwall yn cael ei dangos sy'n gofyn iddynt wirio a golygu'r ffigurau maen nhw wedi'u nodi
- DV20 - gwariant ar ymweliad - os yw sero yn cael ei gofnodi ar gyfer pob categori gwariant bydd neges gwall yn cael ei dangos: "Rydych chi wedi dweud na wnaethoch chi wario unrhyw beth ar eich taith. Ydy hyn yn gywir? Os na, newidiwch eich atebion". Caniateir i'r ymatebydd fwrw ymlaen â dim gwariant, gan fod hyn yn sefyllfa bosibl
- DV20 — gwariant ar ymweliad — os bydd gwerth mwy na £500 yn cael ei gofnodi ar gyfer unrhyw un o'r categorïau gwariant unigol, dangosir neges rhybudd i'r ymatebydd: "Fe wnaethoch chi nodi mwy na £500 ar gyfer eitem. Ydy hyn yn gywir? Os na, newidiwch eich atebion". Caniateir i'r ymatebydd fwrw ymlaen â gwariant o fwy na £500, gan fod hyn yn sefyllfa bosibl
- DV22 — gwariant fesul lle os ymwelir â mwy nag un lle, ac eithrio cludiant — ni chaniateir i'r cyfanswm yn y cwestiwn hwn fod yn fwy na chyfanswm y gwariant sy'n cael ei gofnodi ar DV20, ac eithrio categorïau trafndiaeth

Gan fod yr arolwg ar-lein mae'r sgrïpt wedi'i chynllunio fel na all ymatebydd barhau i'r cwestiwn nesaf oni bai bod ymateb yn cael ei roi. Fodd bynnag, mae gan y mwyafrif o gwestiynau opsiwn 'ddim yn gwybod' i sicrhau y gall pob ymatebydd ateb yn onest. Mae manylion y weithdrefn ar gyfer ymatebion 'ddim yn gwybod' i'w gael yn 4.4.

4.4 Dilysu data

Caiff data ei lawrlwytho o blatfform arolwg Qualtrics yn fisol. Mae llawer o wiriadau ar y data yn cael eu perfformio trwy system awtomataidd sy'n seiliedig ar reolau. Fodd bynnag, yn y ddwy don gyntaf o waith maes, gwiriwyd pob un o'r gwiriadau awtomataidd hyn â llaw ddwywaith i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Mae'r broses ar gyfer dilysu data yn dilyn 7 cam allweddol:

1. Cael gwared ar unrhyw ymatebwyr sydd ag ymatebion anghymwys, fel y cyfuniad o oedran a lefel addysg, neu sydd â llawer iawn o ddata coll. Defnyddir rheolau awtomataidd i dynnu sylw at

a gwrthod unrhyw gofnodion nad ydynt yn bodloni safonau gofynnol. Mae nifer y cofnodion a wrthodwyd yn cael eu monitro'n fisol.

2. Cael gwared ar unrhyw ymatebwyr sy'n rhoi gwybodaeth am ymweliadau anghymwys, fel dweud eu bod wedi ymgymryd â mwy na 5 diwrnod o ymweliadau o leiaf unwaith yr wythnos (mae hyn yn dweud wrthym fod yr ymweliadau mewn gwirionedd yn rhan o'u trefn arferol ac felly nid ydynt yn cael eu cyfrif fel twristiaeth).
3. Ail-godio ymatebion 'ddim yn gwybod' i coll ar gyfer rhai cwestiynau (sy'n gysylltiedig yn bennaf â gwariant). Yna mae'r gwerthoedd coll hyn yn cael eu trin trwy'r broses priodoli sydd wedi'i manylu yn 4.5.
4. Cymhwyso 'Ffactor Cywiro Teithiau' i gyfrif am unrhyw ymweliadau a gymerwyd o fewn y cyfnod cyfeirio, ond na chawsant eu hadrodd yn fanwl. Er mwyn lleihau hyd yr arolwg, ac felly'r baich ar yr ymatebydd, ac ansawdd y data sy'n cael ei gasglu, mae terfyn yn cael ei osod ar nifer yr ymweliadau y gofynnir i bob ymatebydd unigol ddarparu gwybodaeth fanwl amdanynt. Y terfyn hwn yw 3 ymweliad. Mae'n bosibl y gallai ymatebydd unigol fod wedi cymryd mwy na 3 ymweliad yn y cyfnod yr holwyd amdano, er bod hyn yn brin. Mae'r Ffactor Cywiro Trip yn cyfrif am hyn. Caiff ei gyfrifo drwy rannu nifer yr ymweliadau cymwys â nifer yr ymweliadau a adroddwyd ac mae'n cael ei gymhwyso i gofnod pob ymatebydd. Mae'n ffactor o'r cyfrifiadau cyfaint a gwerth terfynol.
5. Trosi data o'r cwestiynau gwariant i wariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' fel y gellir defnyddio rheolau a chapiau dilysu data ar sail tebyg-am-debyg. At ddibenion y cyfrifiadau hyn, rydym ni'n cyfrif gwariant plant fel hanner oedolyn, felly rydym yn rhannu'r gwariant yr adroddir amdano sy'n gyfwerth â fesul oedolyn ' â chyfanswm y rhai yr adroddwyd arnynt [nifer yr oedolion + $\frac{1}{2}$ * nifer y plant yr adroddir amdanynt]. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae data gwariant yn cael ei drin ar gael yn adran 4.5.3.
6. Yna caiff capiau ac ail-godio eu cymhwyso i'r data gwariant 'cyfwerth ag oedolyn':
 - a. Capiau ar rai newidynnau i leihau effaith allanolyn pan fydd defnyddwyr yn drilio i lawr i is-setiau llai o'r data
 - b. Adennill gwerthoedd gwario sero i werth coll lle mae rheswm digonol i gredu y byddai gwariant wedi digwydd
 - c. Mewnbynnu unrhyw werthoedd coll gyda chanolrif fesul gwariant cyfatebol oedolyn ar gyfer y mis hwnnw
7. Capiau a ailgodio ar faint parti a nifer y lleoedd yr ymwelwyd â nhw i gyfyngu ar effaith allanolion pan fydd defnyddwyr yn drilio i lawr i is-setiau llai o'r data. Defnyddir rheolau gosod ar gyfer pan fydd data'n cael ei gapio a'r lefel y caiff ei gapio arni (a ddisgrifir yn 4.5.1).

Mae'n bwysig nodi, lle mae swm yn cael ei gofnodi gan ymatebydd, bod y swm hwnnw yn cael ei gapio yn unig, nid yw byth yn cael ei ail-godio i fod yn ddata coll neu'n cael ei briodoli. Pwrpas y capiau yw lleihau effaith allanolion pan gaiff data ei ddadansoddi, yn enwedig ar lefel is-grŵp.

Mae nifer y cofnodion sy'n cael eu capio neu eu dileu am fod yn anghymwys yn cael eu monitro bob mis ac yn cael eu hadrodd yn y ddogfen hon o dan 4.5.

4.5 Crynod data

4.5.1 Capiu a chyfrifiadau

Fel sy'n cael ei ddisgrifio yn 4.4, mae cyfrifiad yn digwydd mewn 3 achos;

1. Pan fydd 'capiu' yn cael eu gweithredu ar ddata (i leihau effaith allanolion)
2. Pan fydd data coll yn cael ei ddisodli (er mwyn sicrhau data cadarn ac felly ansawdd data)
3. Pan fydd data gwariant sero yn cael ei ddisodli (pan fo rheswm digonol i gredu y dylai gwariant fod wedi digwydd)

Pan fydd data gwariant coll yn cael ei ddisodli, mae proses dau gam yn cael ei defnyddio:

- Mae gwerth sero yn cael ei neilltuo i gyfran. Mae'r gyfran hon yn cael ei phennu gan gyfran yr ymweliadau dilys sydd â gwerth sero, h.y., os oes gan 10% o ymweliadau dilys ymateb sero, rhoddir ymateb sero i 10% o ymweliadau coll
- Mae gwerth canolrifol nad yw'n sero yn cael ei neilltuo i'r ymweliadau eraill o fewn y mis hwnnw i'r ymweliadau coll sy'n weddill

Mae'r capiau a'r cyfrifiadau sy'n cael eu cymhwyso fel a ganlyn:

- DV06 — nifer y lleoedd eraill yr ymwelwyd â hwy o fewn yr ymweliad dydd (ar wahân i'r prif lle). Mae'r gwerth hwn wedi'i gapio ar 6 i gyfyngu ar effaith unrhyw allanolion. Mae'r penderfyniad i gapio ar 6 (h.y., cyfanswm o 7 lle) yn seiliedig ar y ddealltwriaeth y byddai ymatebydd sy'n ymweld â mwy na 7 lle ond yn treulio ychydig bach o amser ym mhob lle oherwydd nad yw ymweliadau undydd yn cynnwys aros dros nos o unrhyw fath.
- DV15 — cyfansoddiad parti'r ymweliad undydd. Os bydd ymatebydd yn nodi bod mwy na 2 ŵr/gwraig/partneriaid gyda nhw, mae'r gwerth yn cael ei gapio ar 2. Mae hyn oherwydd y gellir tybio yn rhesymol bod unrhyw werth sy'n fwy na 2 oherwydd gwall yn ystod y cam mewnbynnu data.

- DV15 — cyfansoddiad parti'r ymweliad undydd. Os yw ymatebydd yn nodi yn y cwestiwn blaenorol (DV14) ei fod yng nghwmni plentyn, ond nad yw'n nodi unrhyw blant yn DV15, mae'r newidyn plentyn maint parti ffug yn cael ei nodi fel coll ac yn cael ei briodoli gyda'r canolrif di-sero o blant ar gyfer y math hwnnw o ymweliad (sy'n cael ei ddiffinio gan DVU2 a DV02).
- DV15 — cyfansoddiad parti'r ymweliad undydd. Os yw ymatebydd yn nodi yn y cwestiwn blaenorol (DV14) ei fod yng nghwmni oedolyn arall, ond nad yw'n nodi unrhyw oedolion yn DV15, mae'r newidyn oedolyn maint parti ffug yn cael ei nodi fel coll ac mae canolrif oedolion di-sero ar gyfer y math hwnnw o ymweliad (sy'n cael ei ddiffinio gan DVU2 a DV02).
- DV20_1 — gwariant ymweliad ar drafnidiaeth ffordd (tocynnau bws, pris tacsï, parcio ceir). Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_2 — gwariant ymweld ar drafnidiaeth ffordd (yr holl danwydd a brynwyd yn ystod yr ymweliad). Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_3 — gwariant ymweld ar drafnidiaeth rheilffyrdd, tiwb neu dramiau. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod. Os mai'r prif fath o gludiant sydd wedi'i ddynodi yn DV11/DV12 yw rheilffordd, tiwb neu dram ac na nododd yr ymatebydd yn DV21 ei fod yn defnyddio cerdyn teithio/tocyn tymor, mae unrhyw werthoedd sero ar gyfer y categori gwariant hwn yn cael eu disodli gan y gwariant canolrif di-sero ar gyfer y categori hwn.
- DV20_4 — gwariant ymweliad ar fwyta ac yfed allan. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_5 — gwariant ymweliad ar fwyd/diod sy'n cael ei brynu mewn siop, stondin farchnad neu fwyd tecawê ac sy'n cael ei fwyta yn ystod yr ymweliad. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_6- gwariant ymweliad ar siopa 'arbenigol'. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £2,500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod. Mae'r cap hwn wedi'i osod yn uwch yn fwriadol na chategoriâu eraill oherwydd gallai fod yn gategori gwariant uchel i rai ymatebwyr.
- DV20_7 — gwariant ymweliad ar fynedfa i atyniadau ymwelwyr. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.

- DV20_8 — gwariant ymweliad ar docynnau/mynedfa i ddigwyddiadau, sioeau, clybiau ac ati. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_9 — gwariant ymweliad ar gludiant dŵr. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_10 — gwariant ymweliad ar drafndiaeth awyr. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod. Os mai 'awyren' yw'r prif fath o gludiant sydd wedi'i nodi yn DV11/DV12, caiff unrhyw werthoedd sero ar gyfer y categori gwariant hwn eu disodli gan y gwariant canolrif nad yw'n sero ar gyfer y categori hwn.
- DV20_11 — gwariant ymweliad ar logi car neu gerbyd arall. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod. Os nodir yn DV11 fod car llogi wedi cael ei ddefnyddio, caiff unrhyw werthoedd sero ar gyfer y categori gwariant hwn eu disodli gan y gwariant canolrif nad yw'n sero ar gyfer y categori hwn.
- DV20_12 — gwariant ymweliad ar docynnau i wylid digwyddiadau chwaraeon. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_13 — gwariant ymweliad ar fynediad i ganolfannau chwaraeon/hamdden. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod.
- DV20_14 — gwariant ymweliad ar deithio pecyn neu deithiau pecyn. Os yw'r gwariant 'cyfwerth â fesul oedolyn' yn fwy na £2,500, mae'r gwerth yn cael ei osod fel gwerth coll a defnyddir y broses dau gam a ddisgrifir uchod. Mae'r cap hwn wedi'i osod yn uwch yn fwriadol na chategoriâu eraill gan fod 'pecyn' yn cynnwys elfennau lluosog ac felly mae'n ymarferol y gallai gwariant fod yn uwch.
